# Arwyddion goleuadau sy’n rheoli traffig

## Arwyddion goleuadau traffig



Mae COCH yn golygu ‘Stopiwch’. Arhoswch y tu ôl i’r llinell stopio ar y ffordd gerbydau



Mae COCH ac AMBR hefyd yn golygu ‘Stopiwch’. Peidiwch â mynd drwodd na chychwyn nes i’r golau GWYRDD ymddangos



Mae GWYRDD yn golygu y cewch fynd yn eich blaen os yw’r ffordd yn glir. Byddwch yn arbennig o ofalus os ydych yn bwriadu troi i’r chwith neu i’r dde, ac ildiwch i gerddwyr sy’n croesi



Mae AMBR yn golygu ‘Stopiwch’ wrth y llinell stopio. Dim ond os yw’r golau AMBR yn ymddangos ar ôl i chi groesi’r llinell stopio y cewch fynd yn eich blaen, neu os ydych mor agos ati fel y gallai stopio achosi damwain



Weithiau ceir SAETH WERDD yn ychwanegol at y golau gwyrdd llawn os caniateir symud i gyfeiriad arbennig cyn neu ar ôl y golau gwyrdd llawn. Os yw’r ffordd yn glir gallwch fynd yn eich blaen, ond dim ond i’r cyfeiriad a ddangosir gan y saeth. Cewch wneud hyn waeth pa oleuadau eraill sydd i’w gweld. Efallai y ceir arwyddion goleuadau gwyn ar gyfer tramiau

## Goleuadau coch yn fflachio

**Mae goleuadau coch yn fflachio am yn ail yn golygu bod RHAID I CHI STOPIO**

Ger croesfannau rheilffordd, pontydd sy’n codi, meysydd awyr, gorsafoedd tân, ayb



## Arwyddion traffyrdd



**RHAID I CHI BEIDIO** â mynd ymhellach yn y lôn hon



Newidiwch lôn




Gwelededd gwael o’ch blaen



Y lôn o’ch blaen ar gau




Uchafswm cyflymder dros dro a awgrymir a neges er gwybodaeth



Gadewch y draffordd ar yr allanfa nesaf




Uchafswm cyflymder dros dro a awgrymir




Diwedd cyfyngiad

## Arwyddion rheoli lonydd



Saeth gwyrdd - lôn ar agor i draffig sy’n wynebu’r arwydd

Croesau coch - lôn ar gau i draffig sy’n wynebu’r arwydd

Saeth gwyn lletraws - newidiwch lonydd i’r cyfeiriad a ddangosir